



Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru

Gorffennaf 2020

| | |
|--------------------------|--------------------|
| Rhif y Fersiwn: | 2.0 |
| Dyddiad y'i cytunwyd: | Gorffennaf 2020 |

Cynnwys

| | | |
|----------|--------------------------------------------------------------|----|
| 1 | Hanes adolygu a chymeradwyo | 3 |
| 2 | Cyflwyniad | 4 |
| 3 | Diben y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn | 4 |
| 4 | Rolau a chyfrifoldebau pob sefydliad | 4 |
| 5 | Rhannu gwybodaeth | 7 |
| 6 | Datrys anghydfodau | 8 |
| 7 | Adolygiad o'r protocol | 8 |
| A | Atodiad A – Diogelwch tân ac arolygiadau AGIC | 10 |
| B | Atodiad B – Enwau cyswllt yn AGIC ac Awdurdodau Tân ac Achub | 11 |
| C | Atodiad C – Profforma ar gyfer rhannu gwybodaeth | 13 |

1. HANES ADOLYGU A CHYMERADWYO

| Fersiwn | Dyddiad y'i Cytunwyd | Cymeradwywyd gan |
|---------|----------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| 1.0 | Awst 2017 | Kate Chamberlain, Prif Swyddog Gweithredol AGIC, a'r Dirprwy Brif Swyddog Tân Roger Thomas, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Cadeirydd Lleihau Risgiau Cymunedol |
| 2.0 | Gorffennaf 2020 | Alun Jones, Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro AGIC, a'r Dirprwy Brif Swyddog Tân Roger Thomas, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Cadeirydd Lleihau Risgiau Cymunedol |

2. CYFLWYNIAD

Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn nodi'r trefniadau gweithredol rhwng Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) a'r tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru.

3. DIBEN Y MEMORANDWM CYD-DDEALLTWRIAETH HWN

Diben y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yw egluro'r cydberthnasau gwaith rhwng AGIC a'r tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru, yn enwedig mewn perthynas â rhannu gwybodaeth.

Mae wedi'i gynllunio i sicrhau cysondeb o ran dull gweithredu, rhannu gwybodaeth ac, i'r graddau sy'n bosibl, gysondeb penderfyniadau rhwng AGIC a'r Awdurdodau Tân ac Achub ledled Cymru am risgiau diogelwch tân mewn sefydliadau gofal iechyd yng Nghymru.

Nid yw'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn drech na chyfrifoldebau na swyddogaethau statudol AGIC na'r tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru ac ni ellir ei orfodi o dan y gyfraith. Fodd bynnag, mae AGIC a'r tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru yn cytuno i gydymffurfio â chynnwys y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn.

4. ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU POB SEFYDLIAD

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)

AGIC yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru. Mae AGIC yn cyflawni ei swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru ac, er ei bod yn rhan o Lywodraeth Cymru, mae protocolau wedi'u sefydlu i ddiogelu ei hymreolaeth weithredol. Daw prif swyddogaethau a chyfrifoldebau AGIC o'r ddeddfwriaeth ganlynol:

- Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003;
- Deddf Safonau Gofal 2000 (a rheoliadau cysylltiedig);
- Deddf Iechyd Meddwl 1983 a 2007, Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010;
- Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011;
- Rheoliadau Cyffuriau a Reolir (Goruchwylio Rheolaeth a Defnydd) (Cymru) 2008;
- Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017 a Rheoliadau Diwygio 2018.

Nod AGIC yw:

- Rhoi sicrwydd: Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal.
- Hybu gwelliant: Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arferion da
- Dylanwadu ar bolisi a safonau: Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

Rôl graidd AGIC yw adolygu ac arolygu sefydliadau gofal iechyd y GIG a sefydliadau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru i sicrhau bod cleifion, y cyhoedd ac eraill yn cael gofal diogel ac effeithiol sy'n bodloni safonau cydnabyddedig. Caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu yn erbyn amrywiaeth o safonau, polisiau, canllawiau a rheoliadau cyhoeddedig. Fel rhan o'r gwaith hwn, bydd AGIC yn ceisio nodi a chefnogi gwelliannau i wasanaethau a'r camau y mae angen eu cymryd er mwyn cyflawni hyn. Os bydd angen, bydd AGIC yn cynnal adolygiadau ac ymchwiliadau arbennig, lle yr ymddengys fod methiannau systematig o ran y ffordd y caiff gwasanaethau gofal iechyd eu darparu, er mwyn sicrhau y caiff gwelliannau eu gwneud ac y caiff gwersi eu dysgu'n gyflym.

Mae AGIC hefyd yn gyfrifol am gofrestru a rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000. Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 sy'n llywodraethu'r gwaith o reoleiddio sefydliadau o'r fath.

Pwyllgor Lleihau Risgiau Cymunedol Awdurdodau Tân ac Achub Cymru Cyngor Cenedlaethol y Prif Swyddogion Tân (NFCC)

Cyd-destun cyfreithiol

Pwyllgor Lleihau Risgiau Cymunedol Cymru Cyngor Cenedlaethol y Prif Swyddogion Tân yw'r corff strategol sy'n cydlynu polisiau diogelwch tân ar ran y tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru, sef Gogledd Cymru, Canolbarth a Gorllewin Cymru, a De Cymru.

Mae Pwyllgor Lleihau Risgiau Cymunedol Cymru yn gangen ranbarthol o Bwyllgor Diogelwch Tân Cenedlaethol Cyngor Cenedlaethol y Prif Swyddogion Tân ac felly gall fonitro effeithiau cenedlaethol a'u dylanwad posibl ar bolisiau a strategaethau diogelwch tân yng Nghymru.

Y tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru yw

1. Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, sy'n cynnwys ardaloedd Awdurdod Unedol Abertawe, Castell-nedd a Phort Talbot, Ceredigion, Powys, Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin.
2. Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, sy'n cynnwys ardaloedd Awdurdod Unedol Conwy, Gwynedd, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam ac Ynys Môn.
3. Awdurdod Tân ac Achub De Cymru, sy'n cynnwys ardaloedd Awdurdod Unedol Blaenau Gwent, Bro Morgannwg, Caerdydd, Caerffili, Casnewydd, Merthyr Tudful, Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf, Sir Fynwy a Thorfaen.

Mae Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, Adran 6, Diogelwch Tân, yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub wneud darpariaeth ar gyfer rhoi cyngor, pan ofynnir amdano, mewn perthynas ag adeiladau ac eiddo arall, am y canlynol (Deddf Saesneg yn unig)

- “(i) how to prevent fires and restrict their spread in buildings and other property;*
(ii) the means of escape from buildings and other property in case of fire.”

Daeth Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 i rym ar 1 Hydref 2006. Nod y ddeddfwriaeth yw lleihau'r baich ar fusnesau a achoswyd yn flaenorol gan nifer o gyfundrefnau diogelwch tân cyffredinol a oedd yn gorgyffwrdd – ac o ganlyniad orgyffwrdd o ran cyfrifoldebau'r awdurdodau gorfodi amrywiol. Gwnaeth y Gorchymyn gydgrynhoi a rhesymoli deddfwriaeth diogelwch tân (a oedd wedi'i gwasgaru rhwng nifer mawr o statudau ac is-ddeddfwriaeth yn flaenorol) mewn un Gorchymyn. Drwy wneud hynny, mae'n lleihau nifer yr awdurdodau gorfodi sy'n ymdrin â materion diogelwch tân cyffredinol, ac felly'n symleiddio cyfrifoldebau diogelwch tân. Mae'r Gorchymyn yn cynnal ac yn datblygu'r diogelwch a roddir i ddefnyddwyr safleoedd (ac eraill y gallai tân ar y safle effeithio arnynt).

Mae'r Gorchymyn yn rhoi pwyslais penodol ar y Person â Chyfrifoldeb, a all fod (Gorchymyn Saesneg yn unig) –

- (a) in relation to a workplace, the employer, if the workplace is to any extent under his control;*
(b) in relation to any premises not falling within paragraph (a) –
- i. the person who has control of the premises (as occupier or otherwise) in connection with the carrying on by him of a trade, business or other undertaking (for profit or not); or*
 - ii. the owner, where the person in control of the premises does not have control in connection with the carrying on by that person of a trade, business or other undertaking.*

Mae dyletswydd ar y 'Person â Chyfrifoldeb' i sicrhau y cynhelir asesiad addas a digonol o'r risg o dân ac i gymryd rhagofalon tân rhesymol mewn perthynas â chyflogeion a phobl eraill sy'n defnyddio'r safle. Os oes pump neu fwy o gyflogeion neu os yw'r safle yn drwyddedig neu wedi cael Hysbysiad Addasu, mae'n rhaid cofnodi canfyddiadau arwyddocaol yr asesiad risg. Mae'n bwysig bod camau gweithredu yn cael eu cymryd mewn perthynas â'r canfyddiadau arwyddocaol er mwyn lleihau'r risg o dân; felly, mae'n rhaid i'r cyflogwr lunio cynllun gweithredu sy'n nodi'r mesurau hynny i'w rhoi ar waith i leihau'r risg o dân yn glir, ac sy'n cynnwys amserlenni ar gyfer eu gweithredu.

Mae'n rhaid adolygu'r asesiad risg yn rheolaidd. Os bydd unrhyw reswm dros amau nad yw'r asesiad risg tân yn ddilys mwyach neu os bu newid sylweddol yn y safle sydd wedi effeithio ar y rhagofalon tân, mae angen adolygu a diwygio'r asesiad

Gallai'r rhesymau dros adolygu'r asesiad gynnwys:

- Newidiadau i lefel dibyniaeth defnyddwyr y gwasanaeth;
- Newidiadau i brosesau gwaith neu'r ffordd y cânt eu trefnu, gan gynnwys cyflwyno cyfarpar newydd;
- Addasiadau i'r adeilad, gan gynnwys y cynllun mewnol;

- Newidiadau sylweddol i ddodrefn ac addurniadau;
- Dechrau storio sylweddau peryglus, newid defnydd mewn perthynas â hynny, neu gynyddu faint o sylweddau peryglus a gaiff eu storio;
- Methiant rhagofalon tân, e.e. systemau synhwyro tân a systemau larwm, systemau chwistrellu diogelwch bywyd neu systemau awyru;
- Newidiadau sylweddol i arddangosfeydd neu niferoedd stoc;
- Cynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n bresennol;
- Presenoldeb pobl â rhyw fath o anabledd;
- Presenoldeb staff neu ddefnyddwyr y gwasanaeth nad Saesneg na Chymraeg yw eu hiaith gyntaf.

Dylid ystyried risg bosibl unrhyw newid sylweddol cyn ei gyflwyno, a dylid diwygio'r asesiad risg tân yn unol â hynny.

Cod Rheoleiddwyr

Gosodwyd y Cod hwn gerbron Senedd y DU yn unol ag adran 23 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 ("y Ddeddf"). Mae'n rhaid i reoleiddwyr y nodir eu swyddogaethau drwy orchymyn o dan adran 24(2) o'r Ddeddf ystyried y Cod wrth ddatblygu polisiau a gweithdrefnau gweithredol sy'n llywio eu gweithgareddau rheoleiddio. Mae'n rhaid i reoleiddwyr hefyd ystyried y Cod wrth osod safonau neu roi arweiniad a fydd yn llywio gweithgareddau rheoleiddio rheoleiddwyr eraill. Os bydd rheoleiddiwr, ar sail tystiolaeth berthnasol, yn dod i'r casgliad nad yw darpariaeth benodol yn y Cod yn gymwys neu fod ystyriaeth berthnasol arall yn drech na hi, nid yw'r rheoleiddiwr yn rhwym i ddilyn y ddarpariaeth honno, ond dylai gofnodi'r penderfyniad hwnnw a'r rhesymau dros y penderfyniad.

(Cod Saesneg yn unig)

4. Regulators should share information about compliance and risk

4.1 Regulators should collectively follow the principle of "collect once, use many times" when requesting information from those they regulate.

4.2 When the law allows, regulators should agree secure mechanisms to share information with each other about businesses and other bodies they regulate, to help target resources and activities and minimise duplication.

5. RHANNU GWYBODAETH

Fel rhan o'u cydberthynas waith, bydd AGIC a'r tri Awdurdod Tân ac Achub yn rhannu gwybodaeth berthnasol i gefnogi gwaith y sefydliad arall ac i geisio lleihau risgiau diogelwch tân mewn sefydliadau gofal iechyd. Bydd yr holl drefniadau ar gyfer cyfnewid gwybodaeth a nodir yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn ac unrhyw gytundebau atodol yn ystyried yr holl ddeddfwriaeth berthnasol ac unrhyw rai o godau ymarfer, fframweithiau neu bolisiau eraill AGIC a'r Awdurdodau Tân ac Achub sy'n ymwneud â gwybodaeth bersonol gyfrinachol, a byddant yn cydymffurfio â nhw.

Yn benodol, bydd AGIC yn darparu'r canlynol i'r Awdurdod(au) Tân ac Achub perthnasol:

- Pryderon sylweddol am ddiogelwch tân a nodir fel rhan o arolygiadau neu adolygiadau AGIC (er enghraifft, lle mae AGIC yn teimlo y gallai cleifion fod mewn perygl). Fe'u hanfonir at gyswllt yr Awdurdod Tân ac Achub y cytunwyd arno yn Atodiad B drwy e-bost gan ddefnyddio'r profforma ar gyfer rhannu gwybodaeth yn Atodiad C. Bydd cyswllt yr Awdurdod Tân ac Achub yn penderfynu a oes angen cymryd unrhyw gamau gweithredu pellach o ganlyniad i'r wybodaeth a ddarparwyd.
- Adroddiadau arolygu neu adolygu AGIC sy'n cynnwys materion diogelwch tân â risg is, ar y diwrnod y caiff yr adroddiad ei gyhoeddi.

Yn benodol, bydd y tri Awdurdod Tân ac Achub yn darparu'r canlynol i AGIC:

- Manylion unrhyw sefydliadau gofal iechyd lle y maent wedi nodi pryderon sylweddol a difrifol am ddiogelwch tân wrth iddynt godi.
- Cadarnhad o unrhyw gamau gweithredu a gymerwyd gan yr Awdurdod Tân ac Achub yn dilyn unrhyw bryderon sylweddol am ddiogelwch tân a nodwyd ac a rannwyd gan AGIC.
- Sesiwn hyfforddi ar gyfer staff perthnasol AGIC, pan fo angen, ar faterion i gadw golwg amdanynt o ran diogelwch tân mewn sefydliadau gofal iechyd.

6. DATRYS ANGHYDFODAU

Fel arfer caiff unrhyw anghydfod rhwng AGIC a'r tri Awdurdod Tân ac Achub ei ddatrys ar lefel weithredol. Os nad yw hyn yn bosibl, gellir ei atgyfeirio drwy'r rhai sy'n gyfrifol am reoli'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn, hyd at ac yn cynnwys Prif Weithredwr AGIC a'r Prif Swyddog Tân ar gyfer yr ardal awdurdod tân berthnasol ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub a fydd wedyn yn gyfrifol ar y cyd am ddatrys y mater mewn ffordd sy'n foddhaol i'r ddau sefydliad.

7. ADOLYGIAD O'R PROTOCOL

Bydd AGIC a'r Pwyllgor Lleihau Risgiau Cymunedol yn goruchwyllo'r gwaith o weithredu, adolygu a diwygio'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth i sicrhau ei fod yn parhau i ddiwallu anghenion yr holl randdeiliaid. Caiff ei adolygu bob dwy flynedd neu pan fydd AGIC neu'r Pwyllgor yn tybio bod angen gwneud hynny. Mae'r ddau sefydliad wedi nodi unigolyn sy'n gyfrifol am y gwaith o reoli'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a cheir manylion cyswllt yn Atodiad B.

Llofnodwyd



Alun Jones
Prif Weithredwr Dros Dro
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Roger Thomas
Dirprwy Brif Swyddog Tân
Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin
Cymru
(Cadeirydd Pwyllgor Lleihau Risgiau Cymunedol
Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru Gyfan)

Dyddiad: 21 Hydref 2020

Dyddiad: 08 GORFFENNAF 2020

ATODIAD A – Diogelwch tân ac arolygiadau AGIC

Fel rhan o arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd y GIG a gwasanaethau gofal iechyd annibynnol, gall AGIC ystyried agweddau ar ddiogelwch tân wrth asesu'r ffordd y mae gwasanaethau yn rheoli risg ac iechyd a diogelwch. Gall hyn gynnwys agweddau ar ddiogelwch tân megis unrhyw beryglon amgylcheddol amlwg, presenoldeb asesiad risg tân cyfredol, presenoldeb diffoddwyr tân ac arwyddion allanfeydd tân, a gweithdrefnau brys ar gyfer gwagio'r adeilad.

Fel arfer, byddai agweddau ar ddiogelwch tân yn cael eu hystyried yn ystod arolygiadau o bractisau meddygon teulu, practisau deintyddol a gwasanaethau gofal iechyd annibynnol.

Os bydd AGIC yn nodi unrhyw bryderon difrifol yn gysylltiedig â diogelwch tân mewn unrhyw arolygiad, byddai AGIC yn rhoi gwybod i'r Awdurdod Tân ac Achub perthnasol am y rhain fel y bo'n briodol.

Atodiad B – Enwau cyswilt yn AGIC ac Awdurdodau Tân ac Achub

AGIC

| | |
|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <p>Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru Parc Busnes Rhydycar Merthyr Tudful CF48 1UZ Ffôn: 0300 062 8163</p> | <p>Prif Weithredwr: Alun Jones Prif Weithredwr Dros Dro E-bost: Alun.Jones39@gov.wales</p> |
| <p>Yn gyfrifol am reoli'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth: Joseph Wilton Pennaeth Partneriaethau, Gwybodaeth a Methodoleg E-bost: joseph.wilton@gov.wales Ffôn: 0300 025 2663</p> | <p>Cyfeiriad e-bost ar gyfer anfon gohebiaeth: E-bost: AGIC@llyw.cymru</p> |

AWDURDODAU TÂN AC ACHUB

| | |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <p>Yn gyfrifol am reoli'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Dick Jones Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru E-bost: r-jones@southwales-fire.gov.uk</p> | |
| <p>Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (03706060699) Adrannau Diogelwch Tân: Pencadlys Diogelwch Tân Busnesau Lôn Pesgwydd, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin, SA31 1SP BFSdept@mawwfire.gov.uk Ardal Reoli Sirol Ceredigion, Trefechan, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 1BE ceredigion@mawwfire.gov.uk</p> | <p>Ardal Reoli Sir Gaerfyrddin, Lôn Pesgwydd, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin, SA31 1SP carmarthenshire@mawwfire.gov.uk Ardal Reoli Sirol Castell-nedd Port Talbot, Upper Cimla Road, Castell-nedd, Castell-nedd Port Talbot, SA11 3UG neathporttalbot@mawwfire.gov.uk</p> |

| | |
|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <p>Ardal Reoli Sir Benfro, Merlin's Hill, Hwlfordd, Sir Benfro, SA61 1PE Pembrokeshire@mawwfire.gov.uk</p> <p>Ardal Reoli Sirol Abertawe, Sway Road, Treforys, Abertawe, SA6 6JA swansea@mawwfire.gov.uk</p> | <p>Ardal Reoli Sirol Powys, Parc Noyadd, Llandrindod Powys, LD1 5DF Powys@mawwfire.gov.uk</p> |
| <p>Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru</p> <p>Pencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Ffordd Salesbury, Parc Busnes Llanelwy Llanelwy Sir Ddinbych LL17 0JJ Ffôn: +44 (0)1745 535 250</p> | <p>Adrannau Diogelwch Tân</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ynys Môn – 01248 750 110 • Gogledd Gwynedd – 01286 662 999 • De Gwynedd – 01766 515 418 • Conwy – 01492 564 980 • Sir Ddinbych – 01745 352 790 • Sir y Fflint – 01352 792 820 • Wrecsam – 01978 367 870 |
| <p>Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru</p> <p>Adran Diogelwch Tân Busnesau Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru Parc Busnes Forest View Llantrisant Pont-y-clun CF72 8LX</p> <p>Ffôn: 01443 232000 Ffôn: 01443 232585 Ffacs: 01443 232180 E-bost: firesafety@southwales-fire.gov.uk</p> | |

ATODIAD C – PROFFORMA AR GYFER RHANNU GWYBODAETH

| Enw a manylion cyswllt Arolygydd AGIC | Enw a chyfeiriad y sefydliad gofal iechyd | Enw rheolwr cofrestredig y sefydliad gofal iechyd | Math o sefydliad gofal iechyd (e.e. practis deintyddol, clinig laser) | Dyddiad arolygiad AGIC | A yw'r sefydliad gofal iechyd yn darparu gofal dros nos? (Ydy/Nac ydy) | Os darperir gofal dros nos, nifer y cleifion yn fras |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------|---------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------|------------------------|------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------|
| | | | | | | |
| <p>Pryderon a nodwyd am ddiogelwch tân a'r camau gweithredu a gymerwyd/sydd i'w cymryd</p> | | | | | | |